WILSON, RICHARD (1713 - 1782), arlunydd golygfeydd natur

Enw: Richard Wilson
Dyddiad geni: 1713
Dyddiad marw: 1782
Rhiant: Alice Wilson (née Wynne)
Rhiant: John Wilson
Rhyw: Gwryw
Galwedigaeth: arlunydd golygfeydd natur
Maes gweithgaredd: Celf a Phensaernïaeth; Natur ac Amaethyddiaeth
Awduron: John Edward Horatio Steegman, Iorwerth Cyfeiliog Peate

Aelod o deulu Wilsoniaid Bwlch-y-llyn a'r Ffinnant, Trefeglwys (Maldwyn), un o hen deuluoedd Cymreig Arwystli. Yr oedd

HUGH WILSON, M.A. (1651 - 1687), ficer

Trefeglwys (1674) a hefyd Llangurig (1676) yn fab i RICHARD (bu farw 1688) a Joanna (bu farw 1678) Wilson, Bwlch-y-llyn. Ymbriododd Hugh yn 1679 â Maria (bu farw 1688) gweddw William Lloyd, Maesbangor, Llanbadarn Fawr. Cawsant bump o blant: John (1680), Maria (1681), Margaretta (1683), Elizabeth (1684), ac Ursula (1687). Daeth Elizabeth (1684 - 1728) yn ail wraig i Syr John Pratt (1657 - 1725), ac yn fam i Charles Pratt (1714 - 1794), Arglwydd Camden (1765), a ddaeth yn 1786 yn iarll Camden ac yn arglwydd ganghellor - felly, yr oedd Richard Wilson yr arlunydd yn gefnder i Camden.

Ordeiniwyd

JOHN WILSON (1680 - 1728), ficer

mab Hugh, yn 1703. Penodwyd ef yn rheithor Gwaunysgor (1709-11) ac wedyn yn ficer Penegoes (ger Machynlleth), 1711-28; bu farw 31 Awst 1728, a chladdwyd yn ei blwy genedigol, Trefeglwys, 4 Medi. Cafodd ef a'i wraig Alice bum mab ac un ferch. Daeth y ferch yn weinyddes i'r arglwyddes Sundon a oedd yn 'lady of the bedchamber' i'r frenhines.

RICHARD WILSON (1713 - 1782), arlunydd golygfeydd natur

Ganwyd Richard Wilson Awst 1713 ym Mhenegoes gerllaw Machynlleth, trydydd mab y Parch. John Wilson a'i wraig Alice, aelod o deulu Wynne, Coed-llai, gerllaw'r Wyddgrug. Treuliodd ei fachgendod yn yr Wyddgrug lle y symudodd y tad i fod yn rheithor yn gynnar ar ôl geni'r bachgen. Anfonwyd ef i Lundain yn 1729, gyda chymorth Syr George Wynne, ac yno cafodd ei addysgu i bortreadu lluniau personau. Llwyddodd i raddau helaeth yn y math hwn o arlunio; yn 1748 paentiodd ddarlun yn cynnwys y tywysog Siôr (y brenin Siôr III wedi hynny) a'r dug York pan oeddent yn blant. Paentiodd hefyd yn y cyfnod hwn rai golygfeydd natur - e.e. dau i'w dodi yn y Foundling Hospital, Llundain, 1746, a ' View of Dover,' y gwnaethpwyd ysgythriad ohono yn 1747; y mae yn Philadelphia ' View of Westminster Bridge ' a arwyddwyd ganddo a'i ddyddio yn 1746.

Yn 1750 aeth Wilson i Venice ac oddi yno yn 1751, i Rufain, lle yr arhosodd am chwe mlynedd, gan fyned ar deithiau arlunio i Tivoli, bryniau Albano, ac arfordir Naples a'r cyffiniau. Pan oedd yn yr Eidal rhoes heibio wneuthur portreadau personau, a chanolbwyntio ar ddarluniau natur, gan ddilyn yn hynny gyngor a roes Vernet a Zuccarelli iddo. Yn 1757 gadawodd yr Eidal ac ymsefydlu yn Llundain. Dangoswyd darluniau natur o'i waith yn y Society of Artists, 1760-8; y cyntaf a'r mwyaf enwog oedd y ' Niobe ' a wnaethpwyd i ddug Cumberland. Yn 1768 yr oedd yn un o'r aelodau a ffurfiodd y Royal Academi; dewiswyd ef yn llyfrgellydd yr academi yn 1776. Ymneilltuodd yn 1781 ac aeth i fyw yn Colomendy, gerllaw'r Wyddgrug, lle yr oedd ei frawd yn oruchwyliwr stad Catherine Jones perthynas iddynt. Bu farw 15 Mai 1782 a chladdwyd ef yn yr Wyddgrug.

Paentiodd Wilson amryw o'i brif wrthrychau fwy nag unwaith, a hynny'n ddigon diofal weithiau. Dioddefodd gan esgeulustod a pheth blinder yn ystod ei fywyd; erbyn heddiw, fodd bynnag, rhestrir ef ymhlith portreadwyr natur mawr y 18fed ganrif yn Ewrop. Ar ei orau y mae'n bencampwr dull ('style'); fel darluniwr goleuni y mae'n dilyn yng nghamre Claude a Cuyp, a bu'n ysbrydoliaeth i Constable a Turner. Deuai ei ysbrydoliaeth ef ei hunan o ran yr hanner o'r Eidal ac o ran yr hanner arall o Gymru, ac felly medrodd ddangos yr ymdeimlad o ramant mewn fframwaith glasurol. Y mae enghreifftiau o'i waith ym mwyafrif prif gasgliadau cyhoeddus Ewrop ac America. Y mae'r darlun ohono a baentiwyd gan Mengs yn Rhufain yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Awduron

John Edward Horatio Steegman, (1899 - 1966)

Iorwerth Cyfeiliog Peate, (1901 - 1982)

Ffynonellau

Wright, *Some account of the life of Richard Wilson, Esq., R.A. with testimonies to his genius and memory, and remarks on his landscapes. To which are added, various observations respecting the pleasure and advantages to be derived from the study of nature and the fine arts* (Llundain 1824)

Oxford Dictionary of National Biography

Catalogue of Exhibition of Works by Richard Wilson (Hull 1936)

Catalogue of an exhibition of pictures by Richard Wilson and his circle organized by the City Museum and Art Gallery (Birmingham 1949)

Adrian Bury, *Richard Wilson, R.A. The grand classic* (Leigh-on-Sea 1947)

Constable, *Richard Wilson* (Llundain 1950)

Rhestrau plwy Trefeglwys, trwy hynawsedd y ficer

D.R.T., The Registers of Trefeglwys, *Collections historical & archaeological relating to Montgomeryshire and its borders*, Cyf.32, tt. 203-222

Evan Edwardes, Trefeglwys Register, *Collections historical & archaeological relating to Montgomeryshire and its borders*, Cyf.33, tt. 17-56

R. Bennett, *Methodistiaeth Trefeglwys, 1754-1814* (Llanidloes 1932)

nodiadau llawysgrif Syr John Edward Lloyd (yn Llyfrgell Coleg y Gogledd)

ymchwiliadau personol

Darllen Pellach

Rita Singer, Through Wales in the Footsteps of William Gilpin: Illustrated Travel Accounts by Early French Tourists, 1768–1810

ArtUK: Richard Wilson: the father of British landscape painting

Erthygl Wicipedia: Richard Wilson

Gweithiau

Richard Wilson, Miss Catherine Jones of Colomendy, near Mold

Amgueddfa Cymru: WILSON, Richard

ArtUK: Richard Wilson

Dolenni Ychwanegol

VIAF: 257184

Wikidata: Q471387

Dyddiad cyhoeddi: 1953

Hawlfraint Erthygl: http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

PDF | Argraffu | Cyfeirnodi

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu

Arddull APA

×

Steegman, J. E. H., & Peate, I. C., (1953). WILSON, RICHARD (1713 - 1782), arlunydd golygfeydd natur. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 19 Awst 2024, o https://bywgraffiadur.cymru/article/c-WILS-RIC-1713

Copïo'r cliptrwdd

Preifatrwydd a Chwcis
Hawlfraint
Y Prosiect
Cymorth
Cysylltu

LLGC NLW

LLYFRGEL
THE NATIO

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government